CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
7 Medi 2016, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, E Williams, G Roberts, R Davies, J Evans (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), A Mummery (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng N Jones	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng R Davies (eitem 5.3)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 29 o Fehefin 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir (un cywiriad: Cyng M Jones (Cyngor Sir) yn datgan diddordeb mater cynllunio Garnedd Ddu)
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Mae'r Cyngor Sir wedi awgrymu bod trigolion Bryn Ffynnon yn cynnal cyfarfod i drafod y mater. Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.2	**Gor-yrru Penmynydd** - mewn llaw
4.3	**Cyflwr y coed ar tir y tai elusendai a dyfodol yr eglwys** - Dywedodd y Cadeirydd bydd y gwaith archeolegol yn dechrau diwedd y flwyddyn, symud y beddau mawr, codi llawr yr eglwys ac ymlaen. Bydd y gwaith yn cymryd o gwmpas blwyddyn a hanner. Bydd y clerc yn cynnig gwahoddiad i Mr John Roberts i'r cyfarfod nesaf i roi wybodaeth diweddaraf am yr tai elusendai.
4.4	**Lamp stryd** (Tai Cyngor Penmynydd) - mae'r lamp wedi cael ei osod
4.5	**Maes chwarae** - Mae ochrau'r y maes bellach wedi cael ei torri. Mae y Clerc wedi derbyn adroddiad gan Play Safety (ROSPA) yn dilyn yr archwiliad yn ddiweddar - bydd angen rhoi'r giat a ffens yn ôl yn eu lle. Bydd y Clerc yn trenu cael pris arall am y gwaith.
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C138/TR Cais llawn ar gyfer codi bloc stablau ynghyd ag addasu'r mynedfa bresennol ar dir ger Star Crossroads - dim sylwadau
5.2	41C73A Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth newydd yn lle'r un presennol yn Talar Wen (Ceirios), Penmynydd - dim sylwadau
5.3	41C99T Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Nyth y Wennol, 5 Bryn Gof, Star - dim sylwadau
5.4	39C561/FR/TR Cais llawn ar gyfer codi Canolfan Zorb ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau a maes parcio ar dir yn The Lodge, Ffordd Caergybi, Porthaethwy. Sylwadau y Cyngor Cymuned: Nid oes angen iddo fod mewn ardal o harddwch, nid yw yn y lle iawn. Mae angen edrych ar safleoedd eraill. Mae'r safle rhy agos i'r llwybr arfordir. Bydd y cynllun yn effeithio ar mynediad i Fôn/twristiaid
	Llofnod **Cadeirydd** **05.10.16**

6	**Materion Eraill**
6.1	Hysbysffwrdd Star - Mae'r hysbysffwrdd yn Star wedi cael ei fandaleiddio. Mae Cyng Nia Jones wedi cysylltu a'r Heddlu a wedi tynnu lluniau. Mae'r Clerc wedi trefnu cael prisiau am hysbysffwrdd newydd , hefyd am gosod yr hysbysffwrdd. Cytunwyd i symud ymlaen gyda Omega Business Supplies £228.26 am hysbysffwrdd newydd a Sion Jones £100 am gosod yr hysbysffwrdd. Mae y Clerc hefyd wedi cysylltu a'r cwmni yswiriant
7	**Gohebiaeth Ychwanegol**
7.1	Omega Business Supplies - prisiau hysbysffwrdd newydd - gweler 6.1
7.2	Sion Jones - pris gosod hysbysffwrdd £100 - gweler 6.1
7.3	Rospa - Adroddiad y maes chwarae - gweler 4.5
7.4	Rhys Williams - contractwr torri gwair - gweler 4.5 (nid oedd yr ochrau wedi cael ei torri oherwydd ysbwriel a cerrig ar ochrau'r y cae)
7.5	Horizon - gwybodaeth yn unig - arddangosfeydd cyhoeddus
8	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
8.1	Cymen Cyf £186.00 (gwasanaeth cyfieithu cyfarfod cyhoeddus)
8.2	Costau y clerc £132.39
8.3	Rospa £79.80 - archwilio y maes chwarae
8.4	Adolygiad ariannol chwarterol - symud i'r cyfarfod nesaf
8	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **05.10.16**